COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gaerfyrddin

## Adroddiad Cynigion Drafft

Hydref 2025

© Hawlfraint CDFfC 2025

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open- government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn: www.cdffc.llyw.cymru

# RHAGAIR

Dyma ein hadroddiad sy'n cynnwys ein Cynigion Drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Cynhelir yr arolwg hwn o drefniadau etholiadol Sir Gaerfyrddin o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013") a dogfen Polisi ac Ymarfer 2025 Rhaglen Arolygon Etholiadol y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried cysylltiadau lleol a'r rhai sy'n dymuno cadw'r ffiniau presennol. Rydym wedi edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a gyflwynwyd i ni. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni gydbwyso'r materion a'r cynrychiolaethau hyn â'r holl ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried, a'r cyfyngiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Yn benodol, y gofyniad am gydraddoldeb etholiadol, ochr yn ochr ag ystyriaethau daearyddol arbennig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Aelodau a swyddogion y prif gyngor am ein cynorthwyo â'r wybodaeth i'n helpu i ddatblygu ein cynigion drafft, i'r Cynghorau Cymuned a Thref am eu cyfraniad, ac i bawb a wnaeth gynrychiolaethau.

Edrychwn ymlaen at dderbyn unrhyw safbwyntiau y gallech ddymuno eu rhannu.

**Beverly Smith**
**Cadeirydd**

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL SIR GAERFYRDDIN

## ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 5 |
| Pennod 2 | Crynodeb o'r Cynigion Drafft | 6 |
| Pennod 3 | Y Cynigion Drafft | 9 |
| Pennod 4 | Trefniadau Canlyniadol | 27 |
| Pennod 5 | Ymatebion i'r Adroddiad hwn | 29 |
| Pennod 6 | Cydnabyddiaethau | 30 |

ATODIAD 1 TREFNIADAU ETHOLIADOL PRESENNOL
ATODIAD 2 TREFNIADAU ETHOLIADOL ARFAETHEDIG



Argraffiad 1af Hydref 2025


**Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.**
**Mae'r ddogfen ar hon ar gael yn Saesneg.**


Darparwyd y cyfieithiad o'r adroddiad hwn gan Trosol



*Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru*
*4ydd Llawr – Adeilad y Llywodraeth*
*Parc Cathays*
*CAERDYDD*
*CF24 0BL*
*Rhif Ffôn: (029) 2046 4819*
*Rhif Ffacs: (029) 2046 4823*
*E-bost: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru*
*www.cdffc.llyw.cymru*


FSC

INVESTORS IN PEOPLE

## Pennod 1. Cyflwyniad

1. Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) yn cynnal arolwg o drefniadau etholiadol Sir Gaerfyrddin. Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal yn unol â Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013").

2. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i gynnal arolwg o bob un o'r 22 Prif Gyngor yng Nghymru bob 12 mlynedd. Gellir gweld y rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r Comisiwn yn eu dilyn yn nogfen Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025: Polisi ac Ymarfer y Comisiwn, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

3. Cwblhaodd Cyngor Sir Caerfyrddin arolwg o'r ardaloedd cymunedol o fewn Sir Gaerfyrddin a chyflwynodd ei adroddiad i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, sef yr awdurdod gweithredu, ar 17 Medi 2024. Derbyniodd y Comisiwn yr argymhellion a gyflwynwyd gan y cyngor. Daeth y Gorchymyn i rym ar 21 Mai 2025. Nid oedd y cyngor wedi gweithredu'r newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol yn rhan o'i arolwg cymunedol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yng *Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025.* Cynigir gweithredu'r newidiadau hyn yn rhan o'r arolwg etholiadol hwn.

4. Mae manylion yr Arolwg Cymunedol ar gael ar wefan y Comisiwn.

5. Mae'r Comisiwn bellach yn ceisio safbwyntiau ar y trefniadau etholiadol arfaethedig a nodir ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn. Ar ôl derbyn y safbwyntiau hyn, bydd y Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau ac yn gwneud argymhellion terfynol i Lywodraeth Cymru. Yna, mater i Weinidogion Llywodraeth Cymru fydd gwneud y Gorchymyn, os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol, gydag addasiadau neu hebddynt.

6. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ysgrifenedig wedi'u seilio ar dystiolaeth a ffeithiau sy'n berthnasol i'r cynigion sy'n cael eu hystyried. Rhoddir manylion ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

## Pennod 2. CRYNODEB O'R CYNIGION DRAFFT

7. Mae'r Comisiwn yn cynnig newid i drefniant wardiau etholiadol a ddylai sicrhau bod wardiau etholiadol llywodraeth leol yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor. Bydd y newid arfaethedig i drefniant wardiau etholiadol yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws Sir Gaerfyrddin.

8. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyngor â 74 o aelodau, sy'n llai na'r 75 o aelodau ar hyn o bryd. Mae'r cynnig hwn yn arwain at 2,021 o etholwyr fesul aelod yn y sir, ar gyfartaledd.

9. Mae'r Comisiwn yn cynnig 47 o wardiau etholiadol.

10. Y dangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn y cynigion yw **Yr Hendy Tŷ-croes** (20% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r dangynrychiolaeth fwyaf yn yr **Hendy** (31% yn uwch na'r cyfartaledd sirol).

11. Yr orgynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn y cynigion yw'r **Garnant** (19% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r orgynrychiolaeth fwyaf yn **Llanfihangel Aberbythych** (23% yn is na'r cyfartaledd sirol).

12. Mae'r Comisiwn yn cynnig 23 o wardiau aml-aelod yn y sir, sef: 19 o wardiau etholiadol â dau aelod; a phedair ward etholiadol â thri aelod.

13. Mae'r Comisiwn wedi cynnig cadw trefniadau presennol 39 o wardiau etholiadol.


14. Mae'r Comisiwn yn cynnig peidio â chael unrhyw wardiau etholiadol yn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned â wardiau, ynghyd â'i chymuned gyfagos.

15. Cafodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac un cynghorydd. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau'n ofalus cyn llunio ei gynigion. Mae'r holl gynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.


### Mapiau Crynhoi

16. Ceir mapiau thematig ar y tudalennau canlynol sy'n dangos y trefniadau presennol ac arfaethedig a sut maen nhw'n amrywio o gyfartaleddau presennol ac arfaethedig y sir, sef 1,994 o etholwyr a 2,021 o etholwyr, yn y drefn honno. Mae'r ardaloedd gwyrdd o fewn +/-10% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd melyn a chroeslinellau melyn rhwng +/-10% a +/-20% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd oren a chroeslinellau oren rhwng +/-20% a +/-50% o gyfartaledd y sir; ac mae'r ardaloedd coch a chroeslinellau coch dros +/-50% o gyfartaledd y sir.

17. Fel y gellir gweld o'r mapiau hyn, mae'r trefniadau arfaethedig yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws y sir.



SIR GAERFYRDDIN
Amrywiant Presennol mewn Cynrychiolaeth Etholiadol yn ôl y Cyfartaledd Sirol
Wardiau Etholiadol Sir Gaerfyrddin
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol
Rhwng 20% a 50% yn uwch (3)
Rhwng 10% a 20% yn uwch (10)
Between +/- 10% (23)
Rhwng 10% a 20% yn is (13)
Rhwng 20% a 50% yn is (2)
1 Gorllewin Tref Caerfyrddin
2 Gogledd a De Tref Caerfyrddin
3 Llangynnwr
4 Pontyberem
5 Gors-las
6 Llanfihangel Aberbythych
7 Llandybïe
8 Pen-y-groes
9 Saron
10 Rhydaman
11 Y Betws
12 Swiss Valley
13 Trimsaran
14 Cydweli a Llanismel
15 Dafen a Felin-foel
16 Lliedi
17 Elli
18 Tyisha
19 Bigyn
LLANELLI
Llanymddyfri
Cil-y-cwm
Llangadog
Cwarter Bach
Y Garnant
Glanaman
Llandeilo
Maenordeilo a Salem
Llanybydder
Llanegwad
Llanfihangel-ar-arth
Tŷ-croes
Hendy
Llangennech
Bynea
Llwynhendy
Glan-y-môr
Hengoed
Porth Tywyn
Pen-bre
Llan-non
Glyn
Llanddarog
Abergwili
Llangyndeyrn
Cynwyl Elfed
Cenarth a Llangeler
Tre-lech
Sanclêr a Llansteffan
Lacharn
Llanboidy
Hendy-gwyn ar Daf
0 10
cilomedrau
Graddfa 1:374,900
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]


SIR GAERFYRDDIN
Amrywiant mewn Cynrychiolaeth Etholiadol yn ôl y Cyfartaledd Sirol Arfaethedig
Wardiau Etholiadol Sir Gaerfyddin
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig
Rhwng 10% a 20% yn uwch (8)
Rhwng +/- 10% (27)
Rhwng 10% a 20% yn is (12)
1 Gorllewin Tref Caerfyrddin
2 Gogledd a De Tref Caerfyrddin
3 Llangynnwr
4 Pontyberem
5 Gors-las
6 Llanfihangel Aberbythych Llandelio
7 Pen-y-groes Llandybïe
8 Saron
9 Rhydaman
10 Y Betws
11 Dyffryn y Swistir
12 Trimsaran
13 Cydweli Llanismel
Llanfihangel-ar-arth
Llanybydder
Cil-y-cwm
Llanymddyfri
Cenarth Llangeler
Cynwyl Elfed
Llanegwad
Manordeilo Salem
Llangadog
Tre-lech
Llanboidy
Abergwili
Llanddarog
Hendy-gwyn ar Daf
Sanclêr Llansteffan
Llangyndeyrn
Cwarter Bach
Lacharn
Llan-non
Y Garnant
Glyn
Glanaman
Pen-bre
Yr Hendy Tŷ-croes
Llangennech
Llwynhendy Bynea
Hengoed
Glan-y-môr
Porth Tywyn
LLANELLI
14 Dafen Felin-foel
15 Lliedi
16 Elli
17 Tyisa
18 Bigyn
0 10
cilomedrau
Graddfa 1:375,300
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## Pennod 3. CYNIGION DRAFFT

1. Disgrifir cynigion y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob cynnig newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:
   - Enw(au) y wardiau etholiadol presennol sy'n ffurfio'r ward etholiadol arfaethedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
   - Disgrifiad byr o'r trefniadau presennol o ran nifer yr etholwyr a'r aelodau etholedig;
   - Dadleuon allweddol a wnaed yn ystod trafodaethau'r Comisiwn;
   - Safbwyntiau'r Comisiwn;
   - Cyfansoddiad y ward etholiadol arfaethedig a'r enw arfaethedig;
   - Map o'r ward etholiadol arfaethedig (gweler yr allwedd isod).

| | | |
|---|---|---|
| Ffin Ward Etholiadol Arfaethedig | Ffiniau Cymunedol | Ffiniau Wardiau Cvmunedol |

#### Wardiau Etholiadol a Gedwir

2. Mae'r Comisiwn wedi ystyried trefniadau etholiadol y wardiau etholiadol presennol a'r gymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol. Cynigir y dylid cadw'r trefniadau presennol yn y wardiau etholiadol canlynol, gan eu bod i gyd o fewn yr amrywiant +/- 20% derbyniol o'r Cyfartaledd Sirol arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod nifer etholwyr rhagamcanol 2030 yn darparu ar gyfer lefelau amrywiant sy'n uwch na'r amrywiant +/- 20% a oddefir ar gyfer wardiau etholiadol Bigyn, y Garnant a Glan-y-môr. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod y trefniadau presennol wedi bod ar waith am un cylch etholiad yn unig a bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'w cadw, ac mae'n fodlon cadw'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer y wardiau hyn. Mae'r enwau isod fel y maent yn ymddangos yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 2021, gyda'r ffurf Gymraeg yn gyntaf.

- Abergwili | Abergwili
- Rhydaman| Ammanford
- Y Betws | Betws
- Bigyn | Bigyn
- Porth Tywyn | Burry Port
- Gogledd a De Tref Caerfyrddin | Carmarthen Town North and South
- Gorllewin Tref Caerfyrddin | Carmarthen Town West
- Cenarth a Llangeler |Cenarth and Llangeler
- Cil-y-cwm | Cilycwm
- Cwarter Bach | Cwarter Bach
- Cynwyl Elfed | Cynwyl Elfed
- Dafen a Felin-foel | Dafen and Felinfoel
- Y Garnant| Garnant
- Glanaman | Glanamman
- Glan-y-môr | Glanymor
- Glyn | Glyn
- Gors-las | Gorslas
- Hengoed | Hengoed
- Cydweli a Llanismel| Kidwelly and St. Ishmael
- Lacharn| Laugharne Township
- Llanboidy| Llanboidy
- Llanddarog| Llanddarog
- Llanymddyfri| Llandovery
- Llanegwad | Llanegwad
- Llanfihangel-ar-arth | Llanfihangel-ar-Arth
- Llangadog| Llangadog
- Llangennech | Llangennech
- Llangynnwr | Llangunnor
- Llangyndeyrn | Llangyndeyrn
- Llan-non | Llannon
- Llanybydder | Llanybydder
- Lliedi| Lliedi

- Manordeilo a Salem | Manordeilo and Salem
- Pen-bre | Pembrey
- Pontyberem | Pontyberem
- Saron| Saron
- Sanclêr a Llansteffan | St Clears and Llansteffan
- Swiss Valley| Swiss Valley
- Tre-lech| Trelech
- Trimsaran | Trimsaran
- Tyisha | Tyisha
- Hendy-gwyn ar Daf | Whitland

### Enwau Arfaethedig ar gyfer Wardiau Etholiadol a Gedwir

3. Yn rhan o arolwg etholiadol, mae'r Comisiwn yn ystyried enwau wardiau etholiadol yn yr ardal sy'n destun arolwg. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn argymell newidiadau i enw ward etholiadol os yw'n ystyried y gellir gwella'r enw, p'un a yw'r Comisiwn hefyd yn argymell newidiadau i drefniadau etholiadol eraill sy'n effeithio ar y ward honno ai peidio. Yng ngoleuni dyletswydd y Comisiwn i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ffafrio un enw Cymraeg ar gyfer wardiau etholiadol sydd hefyd yn dderbyniol yn y Saesneg.

4. Mae gan ward etholiadol bresennol **Abergwili** yr enw Cymraeg presennol **Abergwili**, a'r enw Saesneg presennol **Abergwili**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Abergwili** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

5. Mae gan ward etholiadol bresennol **Rhydaman** yr enw Cymraeg presennol **Rhydaman**, a'r enw Saesneg presennol **Ammanford**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Rhydaman**, a'r enw Saesneg **Ammanford** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

6. Mae gan ward etholiadol bresennol **Betws** yr enw Cymraeg presennol **Y Betws**, a'r enw Saesneg presennol **Betws**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Y Betws** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

7. Mae gan ward etholiadol bresennol **Bigyn** yr enw Cymraeg presennol **Bigyn**, a'r enw Saesneg presennol **Bigyn**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Bigyn** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

8. Mae gan ward etholiadol bresennol **Porth Tywyn** yr enw Cymraeg presennol **Porth Tywyn**, a'r enw Saesneg presennol **Burry Port**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Porth Tywyn**, a'r enw Saesneg **Burry Port** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

9. Mae gan ward etholiadol bresennol **Gogledd a De Tref Caerfyrddin** yr enw Cymraeg presennol **Gogledd a De Tref Caerfyrddin**, a'r enw Saesneg presennol **Carmarthen Town North and South**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Gogledd a De Tref Caerfyrddin**, a'r enw Saesneg **Carmarthen Town North and South** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

10. Mae gan ward etholiadol bresennol **Gorllewin Tref Caerfyrddin** yr enw Cymraeg presennol **Gorllewin Tref Caerfyrddin**, a'r enw Saesneg presennol **Carmarthen Town West**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Gorllewin Tref Caerfyrddin** a'r enw Saesneg

**Carmarthen Town West** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

11. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cenarth a Llangeler** yr enw Cymraeg presennol **Cenarth a Llangeler**, a'r enw Saesneg presennol **Cenarth and Llangeler**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Cenarth Llangeler** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

12. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cil-y-cwm** yr enw Cymraeg presennol **Cil-y-cwm**, a'r enw Saesneg presennol **Cilycwm**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Cil-y-cwm** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

13. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cwarter Bach** yr enw Cymraeg presennol **Cwarter Bach**, a'r enw Saesneg presennol **Cwarter Bach**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Cwarter Bach** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

14. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cynwyl Elfed** yr enw Cymraeg presennol **Cynwyl Elfed**, a'r enw Saesneg presennol **Cynwyl Elfed**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Cynwyl Elfed** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

15. Mae gan ward etholiadol bresennol **Dafen a Felin-foel** yr enw Cymraeg presennol **Dafen a Felin-foel**, a'r enw Saesneg presennol **Dafen and Felinfoel**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Dafen Felin-foel** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

16. Mae gan ward etholiadol bresennol **Elli** yr enw Cymraeg presennol **Elli**, a'r enw Saesneg presennol **Elli**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Elli** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

17. Mae gan ward etholiadol bresennol **Y Garnant** yr enw Cymraeg presennol **Y Garnant**, a'r enw Saesneg presennol **Garnant**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Y Garnant** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

18. Mae gan ward etholiadol bresennol **Glanaman** yr enw Cymraeg presennol **Glanaman**, a'r enw Saesneg presennol **Glanamman**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Glanaman** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

19. Mae gan ward etholiadol bresennol **Glan-y-môr** yr enw Cymraeg presennol **Glan-y-môr**, a'r enw Saesneg presennol **Glanymor**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Glan-y-môr** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

20. Mae gan ward etholiadol bresennol **Glyn** yr enw Cymraeg presennol **Glyn**, a'r enw Saesneg presennol **Glyn**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Glyn** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

21. Mae gan ward etholiadol bresennol **Gors-las** yr enw Cymraeg presennol **Gors-las**, a'r enw Saesneg presennol **Gorslas**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Gors-las** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

22. Mae gan ward etholiadol bresennol **Hengoed** yr enw Cymraeg presennol **Hengoed**, a’r enw Saesneg presennol **Hengoed**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw unigol **Hengoed** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

23. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cydweli a Llanismel** yr enw Cymraeg presennol **Cydweli a Llanismel**, a’r enw Saesneg presennol **Kidwelly and St Ishmael**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw Cymraeg **Cydweli Llanismel**, a’r enw Saesneg **Kidwelly St Ishmael** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau arfaethedig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai Cydweli yw’r unig ffurf safonol a argymhellir yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a dyma’r ffurf a nodir yn rhestr enwau lleoedd Cyngor Sir Caerfyrddin. Fodd bynnag, defnyddir Kidwelly yn aml ar wefan y cyngor ac fe’i defnyddir yn helaeth yn gyffredinol. Felly, mae Comisiynydd y Gymraeg yn fodlon cadw Kidwelly ar gyfer yr enw Saesneg, yn enwedig gan fod yr ail elfen yn yr enw (Llanismel / St Ishmael) yn golygu y byddai dau enw Cymraeg a Saesneg gwahanol, sut bynnag.

24. Mae gan ward etholiadol bresennol **Lacharn** yr enw Cymraeg presennol **Lacharn**, a’r enw Saesneg presennol **Laugharne Township**. Mae’r Comisiwn yn cynnig cadw’r enw Cymraeg **Lacharn**, a’r enw Saesneg **Laugharne Township** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau arfaethedig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd yn credu bod Township yn hanfodol yn yr enw Saesneg. Byddai Laugharne yn dderbyniol ar ei ben ei hun a byddai’n cyfateb i’r enw Cymraeg, sef Lacharn.

25. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanboidy** yr enw Cymraeg presennol **Llanboidy**, a’r enw Saesneg presennol **Llanboidy**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw unigol **Llanboidy** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

26. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanddarog** yr enw Cymraeg presennol **Llanddarog**, a’r enw Saesneg presennol **Llanddarog**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw unigol **Llanddarog** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

27. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanymddyfri** yr enw Cymraeg presennol **Llanymddyfri**, a’r enw Saesneg presennol **Llandovery**. Mae’r Comisiwn yn cynnig cadw’r enw Cymraeg **Llanymddyfri**, a’r enw Saesneg **Llandovery** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau arfaethedig.

28. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanegwad** yr enw Cymraeg presennol **Llanegwad**, a’r enw Saesneg presennol **Llanegwad**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw unigol **Llanegwad** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

29. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanfihangel-ar-arth** yr enw Cymraeg presennol **Llanfihangel-ar-arth**, a’r enw Saesneg presennol **Llanfihangel-ar-Arth**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw unigol **Llanfihangel-ar-arth** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

30. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llangadog** yr enw Cymraeg presennol **Llangadog**, a’r enw Saesneg presennol **Llangadog**. Mae’r Comisiwn yn cynnig rhoi’r enw unigol **Llangadog** i’r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

31. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llangennech** yr enw Cymraeg presennol **Llangennech**, a'r enw Saesneg presennol **Llangennech**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Llangennech** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

32. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llangynnwr** yr enw Cymraeg presennol **Llangynnwr**, a'r enw Saesneg presennol **Llangunnor**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Llangynnwr** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

33. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llangyndeyrn** yr enw Cymraeg presennol **Llangyndeyrn**, a'r enw Saesneg presennol **Llangyndeyrn**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Llangyndeyrn** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

34. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llan-non** yr enw Cymraeg presennol **Llan-non**, a'r enw Saesneg presennol **Llannon**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Llan-non** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

35. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanybydder** yr enw Cymraeg presennol **Llanybydder**, a'r enw Saesneg presennol **Llanybydder**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Llanybydder** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

36. Mae gan ward etholiadol bresennol **Lliedi** yr enw Cymraeg presennol **Lliedi**, a'r enw Saesneg presennol **Lliedi**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Lliedi** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

37. Mae gan ward etholiadol bresennol **Manordeilo a Salem** yr enw Cymraeg presennol **Manordeilo a Salem**, a'r enw Saesneg presennol **Manordeilo and Salem**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Manordeilo Salem** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

38. Mae gan ward etholiadol bresennol **Pen-bre** yr enw Cymraeg presennol **Pen-bre**, a'r enw Saesneg presennol **Pembrey**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Pen-bre** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

39. Mae gan ward etholiadol bresennol **Pontyberem** yr enw Cymraeg presennol **Pontyberem**, a'r enw Saesneg presennol **Pontyberem**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Pontyberem** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

40. Mae gan ward etholiadol bresennol **Saron** yr enw Cymraeg presennol **Saron**, a'r enw Saesneg presennol **Saron**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Saron** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

41. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sanclêr a Llansteffan** yr enw Cymraeg presennol **Sanclêr a Llansteffan**, a'r enw Saesneg presennol **St Clears and Llansteffan**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Sanclêr Llansteffan** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai St Clears yw'r ffurf Saesneg yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru, ond mae'n cytuno â'r enw unigol arfaethedig.

42. Mae gan ward etholiadol bresennol **Swiss Valley** yr enw Cymraeg presennol **Swiss Valley**, a'r enw Saesneg presennol **Swiss Valley**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw Cymraeg **Dyffryn y Swistir**, a chadw'r enw Saesneg **Swiss Valley** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai Dyffryn y Swisdir yw'r ffurf Gymraeg safonol yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

43. Mae gan ward etholiadol bresennol **Tre-lech** yr enw Cymraeg presennol **Tre-lech**, a'r enw Saesneg presennol **Trelech**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Tre-lech** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

44. Mae gan ward etholiadol bresennol **Trimsaran** yr enw Cymraeg presennol **Trimsaran**, a'r enw Saesneg presennol **Trimsaran**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Trimsaran** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

45. Mae gan ward etholiadol bresennol **Tyisha** yr enw Cymraeg presennol **Tyisha**, a'r enw Saesneg presennol **Tyisha**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Tyisa** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn argymell Tyisa fel y ffurf safonol (cymharer â Tyddewi a Tynewydd), gan gydnabod bod y ffurf fwy tafodieithol Tyisha yn cael ei defnyddio'n helaeth.

46. Mae gan ward etholiadol bresennol **Hendy-gwyn ar Daf** yr enw Cymraeg presennol **Hendy-gwyn ar Daf**, a'r enw Saesneg presennol **Whitland**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Hendy-gwyn ar Daf**, a'r enw Saesneg **Whitland** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

47. Byddai'r Comisiwn yn croesawu unrhyw sylwadau ar yr enwau wardiau a grybwyllwyd yn yr adran hon.

### Wardiau Etholiadol Arfaethedig

48. Ystyriodd y Comisiwn newidiadau i'r wardiau etholiadol sy'n weddill. Rhoddir manylion y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 1. Rhoddir trefniadau arfaethedig y Comisiwn yn Atodiad 2.

## LLWYNHENDY A BYNEA

49. Mae ward etholiadol bresennol Llwynhendy yn cynnwys ward Pemberton yng nghymuned Llanelli Wledig. Mae gan y ward etholiadol 3,166 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 21% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,501 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

50. Mae ward etholiadol bresennol Bynea yn cynnwys ward Bynea yng nghymuned Llanelli Wledig. Mae gan y ward etholiadol 3,591 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 10% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,936 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| **Enw** | **Etholwyr 2025** | **Cynghorwyr** | **Cymhareb 2025** | **Amrywiant** | **Etholwyr 2030** | **Cymhareb 2030** | **Amrywiant 2030** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwynhendy | 3,166 | 2 | 1,583 | -21% | 3,501 | 1,751 | -17% |
| Bynea | 3,591 | 2 | 1,796 | -10% | 3,936 | 1,968 | -6% |
| | | **4** | | | | | |

### Cynrychiolaethau

51. Cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau Llwynhendy a Bynea gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

52. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n arwain at un yn llai o gynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Llwynhendy a Bynea


53. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol Llwynhendy a Bynea er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn ward bresennol Llwynhendy. Mae'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, ac yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal gymunedol. Mae'n arwain at dri yn llai o gynghorwyr ar gyfer y wardiau. Mae'r cynnig hwn yn cytuno â'r gynrychiolaeth a gafwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gyfuno'r wardiau hyn, ond nid nifer y cynghorwyr. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnig pedwar cynghorydd ar gyfer y ward etholiadol hon. Mae'r cynnig hwn yn cytuno â'r sylwadau a gwnaed gan Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, ond nid y nifer o gynghorwyr. Awgrymodd Cyngor Sir Caerfyrddin fod pedwar cynghorydd yn addas ar gyfer y ward etholiadol hwn.

54. Bydd 6,757 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig Llwynhendy Bynea, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 12% yn uwch na chyfartaledd rhagamcanol y sir, sef 2,021. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 7,437 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 16% yn fwy na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,130.

## Enwau Arfaethedig

55. O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol newydd **Llwynhendy Bynea** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol arfaethedig ar gyfer y ward newydd.

56. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Llwynhendy Bynea ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw arfaethedig.


Llwynhendy Bynea
0
1
cilomedrau
Graddfa 1:30,990
Ward Bynea
Rhan o Gymuned Llanelli Wledig
Ward Pemberton
(H) Hawlfraint y Goron hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

## YR HENDY A THŶ-CROES

57. Mae ward bresennol yr Hendy yn cynnwys ward yr Hendy yng nghymuned Llanedi. Mae ganddi 2,602 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 31% yn uwch na chyfartaledd y sir, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,633 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 25% yn uwch na chyfartaledd y sir, sef 2,102.

58. Mae ward etholiadol bresennol Tŷ-croes yn cynnwys wardiau Llanedi a Thŷ-croes yng nghymuned Llanedi. Mae ganddi 2,242 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 13% yn uwch na chyfartaledd y sir, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,267 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 8% yn uwch na chyfartaledd y sir, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Hendy | 2,602 | 1 | 2,602 | 31% | 2,633 | 2,633 | 25% |
| Tŷ-croes | 2,242 | 1 | 2,242 | 13% | 2,267 | 2,267 | 8% |
| | | **2** | | | | | |

### Cynrychiolaethau

59. Cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau yr Hendy a Thŷ-croes gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

60. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol yr Hendy a Thŷ-croes

61. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol yr Hendy a Thŷ-croes er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn ward bresennol yr Hendy. Mae'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, ac yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal gymunedol. Bydd dau gynghorydd ar gyfer y wardiau hyn o hyd. Mae'r cynnig hwn yn cytuno â un o'r sylwadau a gwnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.


62. Bydd 4,844 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig yr Hendy a Thŷ-croes, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 20% yn uwch na chyfartaledd rhagamcanol y sir, sef 2,021. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,900 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 15% yn fwy na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,130.

### Enwau Arfaethedig

63. O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw newydd unigol **Yr Hendy Tŷ-croes** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymell yr enw unigol Yr Hendy Tŷ-croes. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y fannod yn rhan annatod o'r enw Yr Hendy a dyma'r ffurf safonol a argymhellir yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

64. Mae’r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Hendy Tŷ-croes ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â’r enw arfaethedig.

## Yr Hendy Tŷ-croes



## LLANFIHANGEL ABERBYTHYCH A LLANDEILO

65. Mae ward etholiadol bresennol Llanfihangel Aberbythych yn cynnwys cymunedau Llanfihangel Aberbythych a Llangathen. Mae ganddi 1,544 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 23% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 1,556 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 26% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

66. Mae ward etholiadol bresennol Llandeilo yn cynnwys cymuned Dyffryn Cennen a thref Llandeilo. Mae ganddi 2,418 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 21% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,480 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 18% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanfihangel Aberbythych | 1,544 | 1 | 1,544 | -23% | 1,556 | 1,556 | -26% |
| Llandeilo | 2,418 | 1 | 2,418 | 21% | 2,480 | 2,480 | 18% |
| | | **2** | | | | | |

### Cynrychiolaethau

67. Cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

68. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo

69. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn wardiau presennol Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo. Mae'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, ac yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal gymunedol. Bydd dau gynghorydd ar gyfer y wardiau hyn o hyd. Mae'r cynnig hwn yn cytuno â'r sylwadau a gwnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.


70. Bydd 3,962 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig, sef 2,021. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,036 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 5% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,130.

71. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i gyfuno wardiau etholiadol Llanfihangel Aberbythych â Phen-y-groes, a Llandeilo â Llandybïe. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â'r opsiynau amgen hyn.

### Enwau Arfaethedig

72. O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol newydd **Llanfihangel Aberbythych Llandeilo** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol arfaethedig ar gyfer y ward newydd.

73. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol Llanfihangel Aberbythych Llandeilo ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw arfaethedig.


Llanfihangel Aberbythych Llandeilo
0
3
cilomedrau
Graddfa 1:69,390
Tref Llandeilo
Ward Castle
Ward Tywi
Ward Ffairfach
Cymuned Dyffryn Cennen
Ward Trapp
Ward Gogledd (Llangathen)
Cymuned Llangathen
Ward De (Llangathen)
Ward Gogledd (Llanfihangel Aberbythych)
Cymuned Llanfihangel Aberbythych
Ward De (Llanfihangel Aberbythych)
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## PEN-Y-GROES A LLANDYBÏE

74. Mae ward etholiadol bresennol Pen-y-groes yn cynnwys ward Pen-y-groes yng nghymuned Llandybïe. Mae ganddi 2,446 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 23% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,878 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 37% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

75. Mae ward etholiadol bresennol Llandybïe yn cynnwys wardiau Heolddu a Llandybïe yng nghymuned Llandybïe. Mae ganddi 3,472 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 13% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,524 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 16% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-groes | 2,446 | 1 | 2,446 | 23% | 2,878 | 2,878 | 37% |
| Llandybïe | 3,472 | 2 | 1,736 | -13% | 3,524 | 1,762 | -16% |
| | | **3** | | | | | |

### Cynrychiolaethau

76. Cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau Pen-y-groes a Llandybïe gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

77. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Pen-y-groes a Llandybïe

78. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol Pen-y-groes a Llandybïe er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn ward bresennol Pen-y-groes. Mae'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, ac yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal gymunedol. Bydd tri chynghorydd ar gyfer y wardiau hyn o hyd. Mae'r cynnig hwn yn cytuno â'r sylwadau a gwnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.


79. Bydd 5,918 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig Pen-y-groes a Llandybïe, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,021. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos bod nifer ragamcanol yr etholwyr yn hafal i'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,130.

80. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i gyfuno wardiau etholiadol Llanfihangel Aberbythych â Phen-y-groes, a Llandeilo â Llandybïe. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â'r opsiynau amgen hyn.

## Enwau Arfaethedig

81. O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol newydd **Pen-y-groes Llandybïe** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol arfaethedig ar gyfer y ward newydd.

82. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol Pen-y-groes Llandybïe ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw arfaethedig.


Pen-y-groes Llandybïe
cilomedrau
Graddfa 1:44,530
0
2
Cymuned Llandybïe
Ward Llandybïe
Ward Heolddu
Ward Pen-y-groes
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## Pennod 4. TREFNIADAU CANLYNIADOL

1. Bu sawl newid i ffiniau llywodraeth leol yn Sir Gaerfyrddin ers yr arolwg etholiadol diwethaf. Yn dilyn *Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025*, gwnaed newidiadau i'r ffiniau cymunedol ond ni weithredwyd y newidiadau canlyniadol ar gyfer y wardiau etholiadol.

2. Mae'r Comisiwn yn argymell y newidiadau canlyniadol i'r ffiniau wardiau etholiadol ar gyfer y wardiau etholiadol hyn er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae adran hon yr adroddiad yn manylu ar ein hargymhellion ar gyfer y cyfryw newidiadau canlyniadol. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adran hon gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

3. Mae tri newid i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol, ac mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried y trefniadau wardiau etholiadol o ganlyniad iddynt. Mae'r newidiadau argymelledig i ffiniau wardiau etholiadol fel a ganlyn:

### Ward etholiadol Glyn

4. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Glyn** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Glyn, fel y dangosir yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef trosglwyddo dau etholwr o Ward Gymunedol Glyn yng Nghymuned Llanelli Wledig i Ward Gymunedol Carwe yn Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Glyn Bresennol | 1 | 1,756 | 1,756 | -13% | 1,931 | 1,931 | -9% |
| Glyn Argymelledig | 1 | 1754 | 1754 | -13% | 1,931 | 1,931 | -9% |

### Ward etholiadol Trimsaran

5. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Trimsaran** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Trimsaran, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Caerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef trosglwyddo 17 o etholwyr o Gymuned Trimsaran i Ward Gymunedol Carwe yn Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trimsaran Bresennol | 1 | 1,968 | 1,968 | -3% | 2,023 | 2,023 | -5% |
| Trimsaran Arfaethedig | 1 | 1,951 | 1,951 | -4% | 2,023 | 2,023 | -5% |

### Ward etholiadol Pontyberem

6. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Pontyberem** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Pontyberem, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef trosglwyddo dau etholwr o gymuned Pontyberem i ward gymunedol Llangyndeyrn yng nghymuned Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pontyberem Bresennol | 1 | 2,220 | 2,220 | 10% | 2,254 | 2,254 | 6% |
| Pontyberem Arfaethedig | 1 | 2,218 | 2,218 | 10% | 2,254 | 2,254 | 6% |

## Llangyndeyrn electoral ward

7. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Llangyndeyrn** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Trimsaran, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, o ran 21 o etholwyr:

- trosglwyddo 17 o etholwyr o gymuned Trimsaran i ward gymunedol Carwe yng nghymuned Llangyndeyrn
- trosglwyddo dau etholwr o ward gymunedol Glyn yng nghymuned Llanelli Wledig i ward gymunedol Carwe yng nghymuned Llangyndeyrn
- trosglwyddo dau etholwr o gymuned Pontyberem i ward gymunedol Llangyndeyrn yng nghymuned Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangyndeyrn Bresennol | 2 | 4,313 | 2,157 | 7% | 4,460 | 2,230 | 5% |
| Llangyndeyrn Arfaethedig | 2 | 4,334 | 2,167 | 7% | 4,460 | 2,230 | 5% |

## Pennod 5. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Dylid anfon pob sylw ar y cynigion drafft hyn at:

Y Prif Weithredwr
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ


Neu drwy anfon neges e-bost at: ymgynghoriadau@cdffc.llyw.cymru
Gellir cyflwyno sylwadau hefyd drwy'r porth ymgynghori ar-lein: arolygoncymru.cymru
erbyn 12 Tachwedd 2025 fan bellaf.

2. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r broses arolygu, cyfeiriwch at dudalen we'r Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru

## Pennod 6. CYDNABYDDIAETHAU

1. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, y cynghorau cymuned a thref a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant am eu cymorth yn ystod y broses o ddatblygu'r cynigion drafft hyn. Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo'r cynigion drafft a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

**BEVERLEY SMITH (Cadeirydd)**



**MICHAEL IMPERATO (Dirprwy Gadeirydd)**



**DIANNE BEVAN (Aelod)**



**FRANK CUTHBERT (Aelod)**



**GINGER WIEGAND (Aelod)**



**BETHAN PRICE-WILLIAMS (Aelod)**



**KAREN JONES (Aelod)**



**FRANCES DUFFY (Aelod)**



**SHEREEN WILLIAMS MBE OStJ DL (Prif Weithredwr)**



**Hydref 2025**

© Hawlfraint CDFfC 2025